


Cyflwyniad

Mae llawer o resymau pam y gallai darpar athrawon ddod i fan lle maent yn achosi pryder ac y bydd arnynt angen cymorth/camau gweithredu sydd y tu hwnt i systemau arferol yr Athrofa: Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA). Yn ffodus, prin iawn yw'r achlysuron hyn ac yn aml trwy weithio mewn partneriaeth, gellir adfer y sefyllfa a'i newid yn un o lwyddiant.

Y rheswm dros weithredu'r broses achos pryder yw sefydlu cymorth ac ymyriadau cyn gynted ag y bo modd a sicrhau y caiff darpar athrawon y cyfle gorau i lwyddo trwy gynllunio camau amserol a phennu targedau penodol. Ni ddylid ystyried bod hyn yn dynodi methiant.

Y tîm o gwmpas y darpar athro

Mae gan PDPA fodel o gymorth sef 'y tîm o gwmpas y darpar athro' (Ffigwr 1), a gallai unrhyw un o'r rhain, gan gynnwys y darpar athro, godi achos pryder:



Ffigwr 1: Y tîm o gwmpas y darpar athro

Y rhain yw'r rolau aelodau allweddol sy'n berthnasol i'r ddogfen hon:

Mentor Dosbarth/ Pwnc	- Gweithiau gyda darpar athrawon o ddydd i ddydd; - Yn cydweithio'n agos â'r Uwch Fentor wrth sicrhau gwaith mentora o ansawdd uchel; - Yn cefnogi'r darpar athro wrth roi tystiolaeth o safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC); - Yn rhoi cyfleoedd ar gyfer hyfforddi, cyd-addysgu, modelu bwriadol ac yn darparu adborth anffurfiol a ffurfiol; - Yn datblygu pwnc a/neu arbenigedd cyfnod.
Uwch Fentor (gall hefyd fod yn Arweinydd y Rhwydwaith)	- Mentor profiadol sydd ag amser wedi ei ddynodi ar gyfer cefnogi darpar athrawon; - Yn gyfrifol am sicrhau gwaith mentora o ansawdd uchel a chysondeb asesiad ar gyfer SAC ar draws yr ysgol; - Yn cydweithio'n agos ag Arweinydd y Rhwydwaith ac Uwch Fentoriaid (ar draws rhwydweithiau) mewn prosesau sicrhau ansawdd; - Yn cyflawni prosesau cymedroli mewn achosion pryder.
Arweinydd y Rhwydwaith (gallai hefyd fod yn Uwch Fentor mewn Ysgol Arweiniol)	- Uwch aelod o staff oddi mewn i Ysgol Bartner Arweiniol yn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer datblygu y darpar athrawon yn y rhwydwaith; - Yn cydweithio'n agos â'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) ac Uwch Fentoriaid mewn ysgolion partneriaid; - Yn sicrhau sicrwydd ansawdd ar draws y rhwydwaith; - Yn cyflawni prosesau cymedroli mewn achosion pryder.
Tiwtor Personol	- Tiwtor personol a enwyd gan y Brifysgol ar gyfer y darpar athrawon; - Man cyswllt cyntaf ar gyfer pryderon bugeiliol; - Yn cyfarfod yn rheolaidd â darpar athrawon mewn grŵp tiwtor personol; - Yn mynychu 'Cyfarfod Pryderon' am ddiffyg cynnydd academiaidd; - Yn monitro'r broses achosion pryder.
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	- Y tiwtor a enwyd yn gysylltiedig â rhwydwaith ac mae'n gweithredu'n bont rhwng y brifysgol/ysgol a'r gwrthwyneb; - Yn gyfrifol am gefnogi darpar athrawon mewn gweithgareddau pontio; adfyfrio cydweithredol, cynnal seminarau a chefnogi astudiaethau mewn gwersi a theithiau dysgu; - Yn cydweithio ag Uwch Fentoriaid ac Arweinyddion y Rhwydweithiau mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd; - Yn cymryd rhan mewn proses achos pryder.
Cymorth Partneriaeth	- Tîm Gweinyddol sy'n cefnogi PDPA (a'r man cyswllt cyntaf ar gyfer cwestiynau): 01267 676914 partnership@pcydds.ac.uk
Cymorth Gwasanaethau Myfyrwyr	- Tîm yn y brifysgol sy'n cynnig cymorth cynhwysfawr i darpar athrawon : 01267 676 767 studentservices@pcydds.ac.uk

Os codir pryderon am ddiogelu ac amddiffyn plant mae PDPA yn cadw'r hawl i ddiystyru pob proses ymyriad a chymorth a dilyn y gweithdrefnau a amlinellwyd ym Mholisi Diogelu'r Drindod Dewi Sant.

Ein Swyddog Diogelu yw:

Catharine Bleasdale
c.bleasdale@pcydds.ac.uk

01267 676914

Llesiant darpar athrawon

Os nodir pryderon am lesiant darpar athrawon, rhaid i'r Brifysgol gael gwybod dros y ffôn neu drwy'r e-bost i Swyddfa'r Bartneriaeth (01267 676914) a gofyn am gysylltu â'r Tiwtor Personol. Gellid dangos enghreifftiau o broblemau gyda llesiant trwy'r canlynol:

- Hwyliau isel neu dristwch parhaus;
- Colli diddordeb neu archwaeth;
- Blinder neu egni isel;
- Diffyg canolbwytio;
- Hunan hyder isel neu sylwadau hunanddibrisiol;
- Cynhyrfu neu arafu symudiadau.

Nid yw'r rhestr hon yn un derfynol a dylid gweithredu ar unrhyw newid mewn ymddygiad sy'n peri pryder.

Os yw'r pryderon yn fwy sylweddol, dylid hefyd gysylltu â'r **Cymorth Gwasanaethau Myfyrwyr** lle gellir dod o hyd i gyngor ar unwaith. Dyma'r manylion cyswllt:

- 01267 676 767
- studentservices@pcydds.ac.uk



Caiff holl fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant eu cyflwyno i'r **Big White Wall**, adnodd cymorth iechyd meddwl ar-lein mynediad 24/7 a ddefnyddir ar draws y sector AU.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod modd i bob myfyriwr gael y cymorth y mae arno ei angen ac yn eu grymuso i wella eu llesiant trwy fynd ati i wella iechyd meddwl.

Cynigia Big White Wall:

- Cymorth ar-lein 24/7, sy'n golygu nad oes angen mynd ar y campws i gael cymorth;

- Cyrsiau strwythuredig a hunan-weinyddir sy'n hyrwyddo iechyd meddwl da;
- Cymorth gan gymheiriaid a rhwydweithiau sy'n cael eu monitro gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl.

Sut i gyfeirio myfyrwyr:

- Gall myfyrwyr gofrestru gan ddefnyddio'u cyfeiriad e-bost yn Y Drindod Dewi Sant;
- Y cyfan y mae angen iddynt ei wneud yw mynd i www.bigwhitewall.com;
- Ar ôl cofrestru gallant greu enw defnyddiwr anhysbys a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Mae rhagor am y gwasanaeth ar gael [yma](#).

Camau'r prosesau cymorth, ymyriad ac achos pryder

Cam 1: Codi Angen ar gyfer Ymyriad a Chymorth



- Hyfforddiant
- Addysgu tîm
- Addysgu pâr
- Arweiniad i ddeunyddiau cymorth
- Seminarau

Pwy all godi angen ar gyfer ymyriad a chymorth?

Y darpar athro

Os bydd darpar athrawon yn cydnabod pryderon am eu cynnydd eu hunain ynghylch safonau academiaidd neu wrth fodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, gallant roi gwybod am angen am ymyriad a chymorth.

Ar gyfer safonau academiaidd, byddai hyn yn digwydd trwy drafod â Thiwtor Personol, a chyfrifoldeb y Tiwtor Personol fyddai monitro'r sefyllfa a rhoi gwybod i'r staff priodol.

Ar gyfer Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinydd, byddai hyn yn digwydd, fel arfer, trwy drafod â'r Mentor dosbarth/pwnc, a'i gyfrifoldeb ef/chyfrifoldeb hi yw monitro'r sefyllfa a rhoi gwybod i'r staff priodol.

Y Tiwtor Personol (Tiwtor Prifysgol - Cwricwlwm) – Cymorth Academiaidd

Fel arfer, rhoddir gwybod am angen cychwynnol ar gyfer ymyriad a chymorth i ddechrau, oherwydd un o'r rhesymau hynny:

- Methu aseiniadau academiaidd yn barhaus;

- Diffyg presenoldeb/prydlondeb;
- Diffyg ymddygiad proffesiynol gydag unrhyw aelod o staff PDPA a/neu gyd-fyfyrwyr.

Yn yr achos cyntaf, dylid trafod y pwnc yn anffurfiol â'r darpar athro, arweinydd modwl y Brifysgol a Thiwtor Personol. Gallai gweithredoedd gynnwys cyfeiriad at wasanaethau myfyrwyr.

Os bydd y problemau'n parhau, dylid trefnu Cyfarfod Pryderon â'r canlynol:

- Y darpar athro ac eiriolwr os dymunir hynny;
- Y Tiwtor Personol;
- Arweinydd y Flwyddyn (prifysgol) neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol AGA (Gweithrediadau neu Bartneriaethau).

Dylid cofnodi'r cyfarfod hwn a nodi'r camau gweithredu a'r llinellau amser y cytunwyd arnynt. Gallai'r cymorth a'r ymyriad gynnwys cyfeiriad at Wasanaethau Myfyrwyr a chymorth i barhau, trosglwyddo i wahanol raglen neu dynnu'n ôl rhag astudio oddi mewn i'r brifysgol. Dylai'r cyfarfod hwn ganolbwyntio ar les gorau'r myfyriwr wrth gydnabod yr angen i wneud cynnydd boddhaol ar raglen astudio.

Dylai'r Tiwtor Personol fonitro a chofnodi unrhyw gamau cyfredol.

Y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a/neu'r Uwch Fentor neu'r Mentor Dosbarth/Pwnc

Mae angen ymyriad a chymorth, fel arfer, oherwydd rhesymau lle cydnabyddir bod y darpar athro mewn peryg o beidio â bodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (heb fod ar drywydd). Er enghraifft:

- Nid yw darpar athro yn gwneud y cynnydd disgwyledig o ran y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth er y cymorth mentora dros amser ('heb fod ar drywydd llwyddo');
- Ni all darpar athro roi tystiolaeth ei fod wedi bodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth – methiant parhaus i weithredu ar gyngor;
- Y darpar athro yn methu â dangos lefel uchel o ymddygiad personol ac ymddygiad proffesiynol yn yr ysgol a/neu'r brifysgol.

Yn yr achos cyntaf dylai'r Mentor Dosbarth/Pwnc gyfarfod â'r darpar athro i drafod y materion a cheisio datrysiaid trwy ymyriadau penodol cyd-addysgu. Er enghraifft:

- Addysgu tîm
- Un yn addysgu, un yn cynorthwyo
- Addysgu gorsafoedd
- Addysgu cyfochrog

Yn dilyn y cyfarfod hwn, dylid rhoi gwybod i'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a'r Arweinydd Rhwydwaith am gamau ac amserliniau y cytunir arnynt. Dylid anfon e-bost at y Tiwtor Personol trwy'r Swyddfa Bartneriaeth.

Os bydd y problemau'n parhau y tu hwnt i amserlin y cytunir arno, dylid cychwyn y broses achos pryder ar yr adeg briodol.

Y broses ymyrryd, cymorth ac achos pryder

Dylai'r broses hon ddechrau gyda Cham 1 a chael ei chofnodi ar ddogfennau gydol y broses. Hefyd, dylid gwneud barn broffesiynol ynghylch y camau a'r amserliniau sy'n seiliedig ar yr egwyddor o roi'r cyfle gorau i'r darpar athro lwyddo erbyn diwedd y Profiad Addysgu Proffesiynol.

Cam yn y broses	Camau proses ar gyfer staff PDPA (yn yr ysgol a'r brifysgol)
Cam 1: Rhoi gwybod am bryder cychwynnol	Deialog Proffesiynol Cefnogol: Cyn gynted ag y bo modd, cyfarfod â'r darpar athro i drafod a chofnodi pryderon.
<i>Y darpar athro</i> <i>Y mentor</i> <i>dosbarth/pwnc</i>	Cytuno ar strategaethau, targedau ac amserliniau a fydd yn adfer y sefyllfa a sicrhau cynnydd. Dylai strategaethau gynnwys cyd-addysgu, hyfforddi a chynorthwyo gyda dewisiadau cynllunio a phedagogiaidd. Cofnodi'r pryderon, camau a thargedau yng Nghynllun Gweithredu Cam 1. Ar gyfer pryderon mewn prifysgol, rhwch wybod i'r Tiwtor Personol yn uniongyrchol trwy'r e-bost neu drwy Swyddfa'r Bartneriaeth. Ar gyfer pryderon yn yr ysgol, dylid rhoi gwybod (trwy'r e-bost neu'n bersonol) i Diwtor Prifysgol (Proffesiynol), yr Uwch Fentor ac Arweinydd y Rhwydwaith.
Cam 2: Adolygu Cam 1	Deialog Proffesiynol Cefnogol: Cyfarfod â'r darpar athro i adolygu pryderon yng Ngham 1.
<i>Y darpar athro</i> <i>Y mentor</i> <i>dosbarth/pwnc</i>	Cyflwyno'r darpar athro dystiolaeth sy'n dangos fod y targedau a'r camau gweithredu wedi eu cyflawni. Os yw'r dystiolaeth yn cefnogi cyflawniad a chynnydd, gellir cwblhau Cam 1. Y gwaith monitro arferol a'r olrhain cynnydd yn ailddechrau. Os bydd dystiolaeth o gyflawniad annigonol, gweithredir Achos Pryder Cam 3. Caiff y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol), yr Uwch Fentor, Arweinydd Y Rhwydwaith a'r Tiwtor Personol eu hysbysu am ganlyniad Cam 1.
Cam 3: Cynllun gweithredu achosion pryder	Deialog Proffesiynol Cefnogol: Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu'r Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cyfarfod â'r darpar athrawon i bennu targedau diwygiedig – dylai'r rhain fod yn amlwg gyda chamau a nodir yn glir i gefnogi cyflawniad. (Gweler Atodiad 1)
<i>Y darpar athro</i>	

<i>Y mentor dosbarth/pwnc</i> <i>Yr Uwch Fentor neu'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)</i>	Cwblheir dogfennau achos pryder a'u hanfon drwy e-bost at y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol), yr Uwch Fentor, Arweinydd y Rhwydwaith a'r Swyddfa'r Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol. Pennir cyfnod amser y cytunir arno i'r darpar athro ganolbwyntio ar gyflawni targedau achos pryder. Dylai pob cyfarfod adolygu ac arsylwadau dilynol ganolbwyntio'n unig ar dargedau achosion pryder a dylid nodi dyfarniadau ar y cynllun gweithredu achosion pryder.
Cam 4: Adolygu Cynllun Gweithredu achosion pryder <i>Y darpar athro</i> <i>Y mentor dosbarth/pwnc</i> <i>Yr Uwch Fentor neu'r Tiwtor Proffesiynol (Proffesiynol)</i> <i>Dewisol: Arweinydd Y Rhwydwaith</i>	<i>Adolygiad Ffurfiol:</i> Yn dilyn cyfnod amser y cytunwyd arno, mae'r darpar athro, y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu'r Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn adolygu targedau achos pryder gan ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth. Ar yr adeg hon, gellir galw ar Arweinydd y Rhwydwaith at ddibenion cymedroli neu gall adolygu'r dystiolaeth yn rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd. Ar gyfer y drafodaeth hon, deuir i benderfyniad ar sail y canlyniadau posibl hyn: <i>1. Y broses achosion pryder yn dod i ben a'r monitro arferol yn ailddechrau</i> – a'r dystiolaeth o hyn yw gwneud digon o dargedau a chyflawni'r targedau achosion pryder; <i>2. Estynnir y broses achosion pryder</i> – fel y gwelir yng nghyflawniad rhannol y targedau achosion pryder ond tystiolaeth ddigonol o gynnydd. Cytunir ar gyfnod ymestyn a threfnir adolygiad arall. Oni bai fod amgylchiadau eithriadol, dim ond unwaith y gellir ymestyn y broses achosion pryder; <i>3. Methiant achosion pryder</i> – os yw'r cynnydd a wnaed yn annigonol, daw'r Profiad Addysgu Proffesiynol i ben ar unwaith a nodir fod hwn yn fethiant. Mae'r darpar athro yn symud i Gyfnod 5. Anfonir canlyniadau'r adolygiad drwy e-bost gan y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) i Swyddfa'r Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol.
Cam 5. Achos pryder aflwyddiannus <i>Y darpar athro</i> <i>Y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)</i>	<i>Hysbysiad o'r canlyniad:</i> Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn rhoi gwybod i'r darpar athro yn ysgrifenedig am fethiant Profiad Addysgu Proffesiynol ynghyd â'r rheswm a'r broses wedi'i gofnodi. Anfonir copi o'r ohebiaeth hon i Swyddfa'r Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol AGA (Partneriaeth).

Ar hyn o bryd, mae'r broses achosion pryder yn cydblethu â phroses Y Drindod Dewi Sant ar gyfer 'Cynnydd Anfoddhaol ar Raglen Astudio' a/neu 'Addasrwydd i Ymarfer' (Y Llawlyfr Ansawdd Academaidd). Mae hyn yn cynnwys y camau nesaf a gallu'r Bwrdd Arholi i gynnig cyfle i ailsefyll os bernir hyn er lles gorau'r darpar athro.

Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn cyfleu prif bwyntiau a chanlyniadau'r bwrdd arholi i Arweinydd y Rhwydwaith, yr Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc.

Symud ymlaen – y Profiad Addysgu Proffesiynol nesaf



- Yr achos pryder wedi ei ddatrys yn llwyddiannus;
- Trosglwyddiad tryloyw i'r mentor dosbarth/pwnc dilynol;
- Sicrhau y cynhelir y cynnydd.

Er mwyn bod yn gefnogol, os yw'r broses achos pryder wedi ei datrys yn llwyddiannus, dylai'r darpar athro ddechrau'r Profiad Addysgu Proffesiynol nesaf mewn sefyllfa i gynnal y cynnydd.

Profiad Addysgu Proffesiynol: Methiant

Ar achlysuron prin, gall fod rhesymau eraill pam na all darpar athro barhau mewn lleoliad Profiad Addysgu Proffesiynol. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- Mae'r cyfleoedd dysgu ac addysgu'n brin oherwydd diffyg Mentor Dosbarth/Pwnc;
- O ganlyniad i Arolwg Estyn, gosodir yr ysgol o dan fesurau arbennig a bellach nid yw'n amgylchedd hyfforddi addas;
- Mae perthnasoedd gweithio proffesiynol wedi dirywio i lefel lle newid lleoliad yw'r opsiwn a ffefrir;
- Mae'r darpar athro yn dod ar draws amgylchiadau iechyd, cymdeithasol, economaidd neu deuluol sy'n golygu mai tarfu ar astudiaethau yw'r opsiwn a ffefrir.

Ym mhob un o'r achosion uchod, dylid cynnal **Cyfarfod Pryderon** sy'n cynnwys y darpar athro, yr Uwch Fentor, Arweinydd y Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol). Yn achos pwyntiau bwled 1, 2 a 3, mewn sefyllfa ddelfrydol mewn dylid lleoli'r darpar athro mewn ysgol arall yn y rhwydwaith.

Os nad yw hyn yn bosibl, dylid dod o hyd i ysgol mewn rhwydwaith gyfagos â'r ffocws o hyd ar roi'r cyfle gorau i'r darpar athro lwyddo. Arweinyddion y Rhwydweithiau sy'n trefnu hyn.

Os bydd y darpar athro yn dod â Phrofiad Addysgu Proffesiynol i ben trwy absenoldeb (cerdded allan), heb ddilyn y llinellau cyfathrebu disgwylidiedig na'r prosesau a eglurir yn y polisi hwn, fel arfer ystyrir iddo/i fethu'r Profiad Addysgu Proffesiynol. Nid oes hawl awtomatig i ailsefyll.

Atodiad

Ymyriad, cymorth a phennu targedau achosion targedau, siart llif a dogfennau

Pennu targedau


Wrth bennu targedau ar gyfer darpar athrawon, mae angen cynnwys y pwyntiau hyn:

- Rhaid cysylltu'r targedau'n amlwg â meysydd pryder sy'n atal disgyblion rhag gwneud cynnydd;
- Rhaid cyfeirnodu targedau'n llawn at y Safonau Broffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;
- Mae angen nodi camau gweithredu clir er mwyn i'r darpar athro allu synhwyro'r ffordd ymlaen a magu hyder;
- Rhaid i adolygiad ar dargedau gynnwys ystod lawn y dystiolaeth ac ni ddylid ei seilio'n unig ar arsylwi gwers o statws uchel;
- Rhaid i nifer y targedau fod yn gyfyngedig er mwyn sicrhau nad ydynt yn llethu'r darpar athro a'i fod yn y sefyllfa orau i lwyddo.

Awgrymir moel ar gyfer pennu targedau wedi ei addasu o Fletcher-Wood (2016):

- ✓ **Clod** – beth mae'r darpar athro wedi ei wneud yn arbennig o dda?
- ✓ **Chwilio** – ar ba agwedd o'r dysgu a'r addysgu yr hoffwn i ganolbwyntio? Beth sylwodd y darpar athro am yr agwedd honno?
- ✓ **Targed Penodol** – beth yr hoffwn i'r darpar athro ei newid am ei ffordd o addysgu?
- ✓ **Ymarfer/Atgyfnerthu/Cynllunio** – sut y gallwn ni droi'r syniad hwn o newid yn realiti?

Siart llif sy'n dangos proses achosion pryder



Cam 1: Wedi rhoi gwybod am bryder cychwynnol

Enw'r darpar athro		Ysgol Lleoliad:	
Mentor Dosbarth/Pwnc:		Uwch Fentor:	
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol):		Dyddiad:	

Nodwyd bod angen cymorth ac ymyriad penodol ar y meysydd canlynol o ran eich cynnydd proffesiynol:

Blaenoriaeth	Maes pryder	Tystiolaeth
1		
2		
3		
4		
5		

Asesir mai eich cynnydd presennol o ran y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yw:

Y Safon Broffesiynol	Ar drywydd llwyddo	Heb fod ar drywydd llwyddo
Addysgeg		
Arweinyddiaeth		
Dysgu proffesiynol		
Arloesi		
Cydweithio		

Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â hwn yn nodi'r cynnydd sydd ei angen i adfer y safonau hynny nad ydynt ar drywydd eu sicrhau ar hyn o bryd. Yn Adolygiad Cam 1, mae angen i ni ddarparu tystiolaeth i ddangos bod digon o gynnydd wedi ei wneud.

Rhestr wirio cam 1: Mentor Dosbarth/Pwnc

Ydych chi wedi:

Cwblhau Cam 1: Ffurflen codi pryder cychwynnol, yn dangos yn glir y meysydd lle mae angen cymorth ac ymyriad penodol, gan ddarparu tystiolaeth ar gyfer y pryderon?		
Gweithio gyda'r darpar athro i lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir y camau ar y cyd sydd eu hangen i adfer safonau nad ydynt ar drywydd eu cyflawni ar hyn o bryd (gan gynnwys ymyriadau cefnogol megis cyd-gynllunio a chyd-addysgu)?		
Trafod â'r darpar athro y mathau o dystiolaeth sydd eu hangen i ddangos digon o gynnydd?		
Pennu dyddiad ar gyfer Adolygu Cam 1?		
Sicrhau bod pob parti sy'n bresennol yn y cyfarfod wedi llofnodi'r ddogfen?		
Anfon copiâu o'r dogfennau i'r unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partnership@pcydds.ac.uk)	
	Uwch Fentor	
	Arweinydd y Rhwydwaith	
	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	
	Darpar Athro	

Cam 1: Wedi rhoi gwybod am bryderon: Cynllun Gweithredu

Dyddiad:

Targedau – beth yw ein nod?	Camau – Beth y mae angen i ni ei wneud i sicrhau cynnydd?	Amserlin – erbyn pryd?	Y dystiolaeth sydd angen i arnom i ddangos cynnydd

Cam 2: Adolygiad ar Gynllun Gweithredu Cam 1

Enw'r darpar athro:		Ysgol Lleoliad:	
Mentor Dosbarth/Pwnc:		Uwch Fentor:	
Tiwtor y Brifysgol (Proffesiynol):			

Dyddiad yr adolygiad:

Canlyniad yr adolygiad:

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd, yr asesiad o'r cynnydd oedd (ticiwch):

Digonol (ar drywydd llwyddo)		Annigonol (heb fod ar drywydd llwyddo)	
Gellir cwblhau Achos pryder Cam 1, ac ailddechrau monitro a thracio cynnydd yn arferol.		Symud i Achos pryder Cam 3	

Llofnod y darpar athro:

Llofnod y Mentor Dosbarth/Pwnc:

Rhestr wirio cam 2: Mentor Dosbarth/Pwnc

Ydych chi wedi:

Cynnal deialog proffesiynol â'r darpar athro ac adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd?		
Gweithio gyda'r darpar athro i nodi a oedd cynnydd digonol (ar drywydd llwyddo) neu annigonol (heb fod ar drywydd) wedi ei wneud?		
Trefnu bod Cynllun Gweithredu Cam 3 Achos Pryder yn cael ei ysgrifennu?		
Sicrhau eich bod chi a'r darpar athro wedi llofnodi'r ddogfen?		
Anfon copïau o'r ddogfennaeth i'r unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partnership@pcydds.ac.uk)	
	Uwch Fentor	
	Arweinydd y Rhwydwaith	
	Tiwtor Prifysgol (proffesiynol)	
	Darpar Athro	

Cam 2: Adolygiad ar Gynllun Gweithredu Cam 1

Dyddiad:

Targed	Tystiolaeth a ddarparwyd i ddangos cynnydd digonol	Do	Naddo

Cam 3: Cwblhau Cynllun Gweithredu achos pryder Cam 3

Enw'r darpar athro		Ysgol Lleoliad:	
Mentor Dosbarth/Pwnc:		Uwch Fentor:	
Tiwtor y Brifysgol (Proffesiynol):			

Deialog Proffesiynol Cefnogol: Mae Tiwtor (Proffesiynol) y Brifysgol neu'r Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cyfarfod â'r darpar athrawon i bennu targedau diwygiedig – dylai'r rhain fod yn amlwg gyda chmau wedi eu nodi'n glir i gefnogi cyflawniad. (Gweler Atodiad) Dylai pob cyfarfod adolygu ac arsylwadau dilynol ganolbwyntio'n unig ar dargedau achosion pryder a dylid nodi dyfarniadau ar y cynllun gweithredu ar gyfer achosion pryder.

Cofnod Presenoldeb ar gyfer cyfnod Cam 3

Dyddiad:

	Enw mewn Priflythrennau	Llofnod
Darpar Athro		
Mentor Dosbarth/Pwnc		
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)		
Uwch Fentor		

Rhestr wirio cam 3: Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu Uwch Diwtor

Ydych chi wedi:

Cynnal deialog proffesiynol â'r darpar athro, Mentor Dosbarth/Pwnc a/neu'r Uwch Fentor/Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)?		
Gweithio gyda'r darpar athro i ddiwygio'r targedau, camau gweithredu a'r dystiolaeth sydd eu hangen i wneud cynnydd digonol er mwyn adfer y sefyllfa 'heb fod ar drywydd llwyddo'?		
Cytuno ar ddyddiadau adolygu ar gyfer targedau'r cynllun gweithredu?		
Sicrhau bod pob parti presennol yn y cyfarfod wedi llofnodi'r ddogfen?		
Anfon copïau o'r dogfennau i'r unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partnership@pcydds.ac.uk)	
	Uwch Fentor	
	Arweinydd y Rhwydwaith	
	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	
	Darpar Athro	

Cam 3: Cynllun Gweithredu achosion pryder**Dyddiad:**

Targedau – beth yw'r nod sydd gennym?	Camau – beth y mae angen i ni ei wneud i sicrhau cynnydd?	Amserlin – pwyntiau adolygu	Tystiolaeth i ddangos cynnydd

Cam 4: Adolygiad ffurfiol ar Gynllun Gweithredu Cam 3 achosion pryder

Enw'r darpar athro		Ysgol Lleoliad:	
Y Mentor Dosbarth/Pwnc:		Uwch Fentor:	
Y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol):			

Adolygiad Ffurfiol: Yn dilyn cyfnod amser y cytunwyd arno, mae'r darpar, Tiwtor y Brifysgol (Proffesiynol) neu'r Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn adolygu targedau achos pryder gan ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth.

Deilliant yr Adolygiad:

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd, aseswyd y cynnydd yn (ticiwch opsiwn deilliant):

Opsiynau'r Cwrs	Ticiwch
Mae cynnydd digonol wedi ei wneud a thargedau wedi eu cyflawni. Mae'r broses Achosion Pryder wedi ei chwblhau. Y gwaith arferol o fonitro ac olrhain cynnydd yn ailddechrau (ar drywydd llwyddo).	
Cynnydd digonol wedi ei wneud fel y gwelir mewn tystiolaeth bod y targedau wedi eu cyflawni'n rhannol. Ystyrir cyfnod o estyniad yn briodol a chytunir ar hyn.	
Cynnydd annigonol wedi ei wneud ac nid yw'r darpar athro ar drywydd bodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar gyfer SAC. Angen i'r Achos Pryder symud ymlaen i Gam 5.	
Ni ellir cytuno ar benderfyniad ac mae angen adolygiad cymedroli gan yr Arweinydd Rhwydwaith.	

Cofnod Presenoldeb ar gyfer Cyfarfod Adolygu Cam 4

Dyddiad:

	Enw mewn Priflythrennau	Llofnod
Darpar athro		
Mentor Dosbarth/Pwnc		
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)		
Uwch Fentor		

Rhestr wirio cam 4: Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu Uwch Diwtor

A ydych chi wedi:

Cynnal deialog proffesiynol â'r darpar athro ac adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd?		
Gweithio gyda'r darpar athro i nodi a wnaed cynnydd digonol (ar drywydd llwyddo) neu annigonol (heb fod ar drywydd llwyddo)?		
Cytuno ar ganlyniad gyda chymau priodol e.e. cwblhau'r Broses Achosion Pryder, cytuno ar estyniad amser a dyddiad adolygu dilynol, neu fynd ymlaen i Gam 5?		
Sicrhau bod pob parti sy'n bresennol yn y cyfarfod wedi llofnodi'r ddogfen?		
Anfon copïau o'r ddogfennaeth i'r unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partnership@pcydds.ac.uk)	
	Uwch Fentor	
	Arweinydd y Rhwydwaith	
	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	
	Darpar Athro	

Cam 4: Adolygiad ar Gynllun Gweithredu Cam 3

Dyddiad:

Targed	Tystiolaeth a ddarparwyd i ddangos cynnydd digonol	Do	Naddo

Cam 5: Achos pryder aflwyddiannus – hysbysiad o'r canlyniad

Hysbysiad o'r canlyniad: Gan ddefnyddio templed PDPA, mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn rhoi gwybod i'r darpar athro yn ysgrifenedig am fethiant Profiad Addysgu Proffesiynol ynghyd â'r rheswm a dogfennau'r broses. Mae'r darpar athro wedi ei dynnu'n ôl o'r Profiad Addysgu Proffesiynol, ac aseswyd ei fod 'heb fod ar drywydd llwyddo' (profiad wedi ei fethu).

Anfonir copi o'r ohebiaeth hon i Swyddfa'r Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol AGA (Partneriaeth).

Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn cyfarfod â Chyfarwyddwr Cynorthwyol AGA (Partneriaeth) a'r Tiwtor Personol ar gyfer cyfarfod briffio ac adolygu'r broses briodol.

Ar hyn o bryd, mae'r broses Achosion Pryder yn cydbblethu â gweithdrefn Y Drindod Dewi Sant ar gyfer:

- Cynnydd Anfoddhaol ar Raglen Astudio;
- a/neu Bolisi Addasrwydd Myfyrwyr i Ymarfer.

Mae hyn yn cynnwys y camau nesaf a gallu'r Bwrdd Arholi i gynnig cyfle i ailsefyll os bernir fod hyn er lles gorau'r darpar athro.

Mae Tiwtor y Brifysgol (Proffesiynol) yn cyfleu prif bwyntiau a chanlyniadau'r bwrdd arholi i Arweinydd y Rhwydwaith, yr Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc.

Sicrwydd Ansawdd

Adolygu'r Achos: Dylid adolygu proses Cam 5 Achosion Pryder Aflwyddiannus o fewn ac ar draws rhwydweithiau mewn cyfarfod priodol o Arweinyddion y Rhwydweithiau.

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau eraill ynghylch y broses hon at Catharine Bleasdale yn c.bleasdale@pcydds.ac.uk

Rheoli Fersiynau Dogfennau
Mawrth 2019

Adolygiad
Mehafin 2020